

# Adolygiad Blynyddol Annual Review

2007-08



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD

Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government



# Cynnwys

## Contents



Rhagair	<b>4</b>	Foreword
Y Bwrdd	<b>10</b>	The Board
Neges y Prif Weithredwr	<b>17</b>	Message from the Chief Executive
Crynodeb Gweithredol	<b>21</b>	Executive Summary
Twf	<b>29</b>	Twf
Addysg	<b>33</b>	Education
Pobl Ifanc	<b>39</b>	Young People
Cymunedau	<b>42</b>	Communities
Y Sector Preifat	<b>49</b>	The Private Sector
Y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol	<b>53</b>	The Public and Voluntary Sectors
Partneriaid	<b>59</b>	Partners
Ar Hyd ac ar Led	<b>62</b>	Far and Wide
Y Tîm	<b>69</b>	The Team
Datganiad Ariannol Cryno	<b>72</b>	Summary Financial Statement
Atodiadau	<b>79</b>	Annexes





## Rhagair Foreword

Mae'n bleser gen i gyflwyno adolygiad blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2007-08.

Unwaith eto, fe'm syfrdanwyd gan yr hyn oll a gyflawnwyd gan y Bwrdd a'i bartneriaid dros y cyfnod adrodd. O ddarllen yr adolygiad hwn, cewch brofi hynny, a chael cip ar yr amryfal feysydd yr ydym yn gweithio ynddyn nhw. Wyth gwahanol adran sydd i'r adolygiad, ac mae'r rhain yn cwmpasu'r meysydd hynny.

Yn gyntaf, rhoddir sylw i'n prif gynllun, Twf, sy'n ceisio perswadio rhieni i siarad Cymraeg â'u plant, ac i ddewis addysg a gofal cyfrwng Cymraeg iddyn nhw o'r cychwyn cyntaf. Yn yr ail adran, rydym yn canolbwyntio ar addysg, y maes sydd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf dros y degawdau diwethaf tuag at wella sefyllfa'r Gymraeg o ran nifer ei siaradwyr. Wedyn, trown at ieuencid, sy'n un o brif flaenoriaethau'r Bwrdd o ran cynyddu defnyddio'r Gymraeg gan bobl ifanc y tu allan i furiau'r dosbarth. Mae ein gwaith gyda chymunedau hefyd yn brif flaenoriaeth, a'r Bwrdd oedd y corff cyntaf i annog a chefnogi gweithgareddau cymunedol yn y Gymraeg, er mwyn hyrwyddo'r

I am very pleased to present the Welsh Language Board's annual review for 2007-08.

I am again amazed at what has been achieved by the Board and its partners over the reporting period. On reading the review, one can see that this is indeed the case, and one can cast a glance over the various fields in which we operate. The publication itself has eight different sections which encompass these fields of work.

Firstly, we concentrate on our main project, Twf, which seeks to persuade parents to speak Welsh with their children, and to choose Welsh medium education for them from the start. In the second section, we focus on education, the field which has made the greatest contribution over the past decades to improving the position of the Welsh language, so far as numbers of speakers are concerned. Then we turn to young people, for which increasing their use of Welsh outside school remains a priority for the Board. Working with communities is also a priority of ours, and the Board was the first organisation to encourage and support community activities in Welsh, in order to promote the



Meri Huws



# Rhagair

## Foreword

---

iaith yn y cymunedau hynny lle mae canran uchel o'r boblogaeth yn ei siarad.

Maes blaenoriaeth yr ydym bellach yn gweithredu strategaeth ynddo yw'r Sector Preifat. Dyma'r sector sy'n cael yr effaith mwyaf, efallai, ar fywydau pob dydd defnyddwyr y Gymraeg. A dyna pam y mae'n bwysig sicrhau bod cynnydd yn y gwasanaethau Cymraeg y mae'r sector yn eu cynnig, fel bo cwmnïau'n dod yn gynyddol ymwybodol fod cynnig gwasanaeth yn y ddwy iaith i'w cwsmeriaid yng Nghymru yn arwydd o wasanaeth da. Rydym hefyd yn gweithredu strategaeth yn y Sector Gwirfoddol, sector arall sydd yn effeithio fwyfwy ar fywydau pobl Cymru.

Yn y Sector Cyhoeddus, mae ein gwaith statudol penodol yn mynd o nerth i nerth. Rydym yn parhau i roi pwyslais arbennig yn y sector, a thu hwnt, ar gynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac ar annog pobl i ddefnyddio'n llawn y gwasanaethau Cymraeg sydd eisoes ar gael. Wedyn, ceir adran sy'n crynhoi ein holl waith gyda'n prif bartneriaid. Heb eu hymrwymiad hwy dros y blynyddoedd, byddai'r hyn yr oedd y Bwrdd am ei weld

language in those communities where a high percentage of the population speaks Welsh.

Another priority area in which we have prepared a strategy is the Private Sector. This is the sector that has the greatest effect, perhaps, on the everyday lives of those who speak Welsh. And that is why it is important to ensure that there is an increase in the Welsh language services offered by the sector, so that companies become increasingly aware that providing a service in both languages for their customers is a mark of a good service. We are also implementing a strategy in the Voluntary Sector, another area which is having an increasing effect on the lives of the people of Wales.

In the Public Sector, our statutory work goes from strength to strength. We are continuing to emphasise, both within the sector and beyond, the importance of increasing the use of Welsh in the workplace, and on encouraging people to make full use of those Welsh language services that are available. Once again there is a section which summarises our work with our main partners. Without their commitment over the years,

yn digwydd erioed wedi gallu dwyn ffrwyth. Ac yn olaf, rydym yn cyfeirio'n benodol at ein gwaith cynhaliol ar dechnoleg gwybodaeth; terminoleg a chyfieithu; data ac ymchwil; ac ar y llwyfan rhyngwladol.

Ar ddechrau'r cyfnod adrodd, daeth Llywodraeth newydd i rym yng Nghymru. Cyhoeddodd y Llywodraeth Glymblaid ar y cychwyn yn y ddogfen Cymru'n Un ei bod am gyflwyno deddfwriaeth newydd o blaid y Gymraeg. Rydym yn croesawu hyn, wrth reswm, ac yn edrych ymlaen at weld beth fydd yn deillio'n ymarferol o hyn. Pan ddaw cynlluniau deddfwriaethol y Llywodraeth yn hysbys, mae'n hollbwysig y bydd cyfle i bawb sydd â diddordeb yn y Gymraeg gyfrannu at y drafodaeth agored a chynhwysol a ddylai ddilyn, er mwyn sicrhau fod deddfwriaeth addas a chymwys yn diogelu statws yr iaith, ac yn hwyluso ei ffyniant tua'r dyfodol. Nid yw deddfu yn ei hunan yn ddigonol chwaith: mae angen adnoddau ychwanegol i sicrhau fod polisi'n troi'n weithredu dros y degawd nesaf. A rhaid dal mewn cof yn y cyswllt hwn y gwaith sy'n parhau, heb fod

the work which the Board wished to see taking place could never have happened. And finally, we refer specifically to our supportive work in information technology; terminology and translation; data and research; and on the international scene.

At the beginning of the reporting period, a new Government came into power in Wales. The Coalition Government announced at the very beginning in its One Wales document that it intended to bring forward new legislation to support the Welsh language. Naturally, we welcome this, and look forward to seeing what will emerge in practical terms. When the Government's legislative plans are announced, it is imperative that there is an opportunity for everyone with an interest in the Welsh language to contribute to the open and inclusive debate that should follow in the wake of this announcement, in order to ensure that appropriate and commensurate legislation will be introduced to protect the status of the language, and facilitate its future development. However, legislation in itself is not enough: additional resources are required in addition to ensure that policy is converted into action over the coming decade. And one should never lose sight,

# Rhagair

## Foreword

---

angen deddfwriaeth benodol ar ei gyfer. Er mwyn datblygu'r gwaith hwnnw, drwy adeiladu ar lwyddiant a brofwyd yn barod, mae angen buddsoddiad cynyddol yn ogystal.

Hoffwn gyfeirio at ddau faes arall sy'n peri pryder i nifer ohonom. Yn gyntaf, mudoledd, y prif ffactor, yn fy marn i, sydd wedi arwain at edwiniad yr iaith yn nifer o'i chadarnleoedd, wrth i bobl ddi-Gymraeg symud i mewn, a Chymry Cymraeg symud allan, i chwilio gwell byd. Ni allai unrhyw ddeddfwriaeth synhwyrol ar ei phen ei hun ddatrys y broblem: yr hyn sydd ei angen yw mwy o fuddsoddiad mewn cymunedau o'r fath i sicrhau eu cynaliadwyedd. Ac nid buddsoddiad economaidd yn unig, ond buddsoddiad cymdeithasol helaethach yn y math o waith cymunedol y mae'r Bwrdd yn ei hybu, drwy'r Mentrau Iaith a Chynlluniau Gweithredu Iaith, er enghraifft. Eto mae angen trafodaethau adeiladol ar fudoled, yn hytrach na'i ganfod fel bwgan ar y naill law, neu ei anwybyddu'n llwyr, ar y llall.

Yr ail faes yw addysg bellach ac uwch, lle mae'r ddarpariaeth yn y

in this context, of the work which does not require any specific legislation to continue. But in order to develop that work, by building on successes that have already been established, increased investment is also required.

I should like to refer to two other areas which are a matter of concern to many of us. Firstly, migration, the chief factor, in my view, which has led to a decline in the Welsh language in many of its traditional strongholds, as people who have no Welsh move in, and Welsh speakers move out, in search of a better world. No sensible legislation on its own is going to solve this problem: what is required is greater investment in such communities to ensure their sustainability. And it is not only economic investment that is required, but greater social investment in the kind of community work which the Board promotes, through the Mentrau Iaith and Language Action Plans, for instance. Once again, we need a constructive discussion on migration, without perceiving it as a bugbear on the one hand, or ignoring it completely on the other.

The second area of concern is further and higher education,

Gymraeg ar y cyfan yn annigonol iawn o hyd. A'r rheswm y mae'n rhaid mynd i'r afael â'r maes yw er mwyn sicrhau nad yw gwaith ardderchog y sectorau cynradd ac uwchradd yn cael ei ddadwneud pan nad oes modd i nifer fawr o ddisgyblion ysgol ddilyn cwrs naturiol eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg wrth fynd i'r coleg, neu wrth dderbyn hyfforddiant ar gyfer eu gyrfa.

I gloi, dymunaf ddiolch, fel pob amser, i'n holl bartneriaid am eu cydweithrediad a'u gwaith dygn; i Meirion Prys Jones a'i dîm yn arbennig am eu diwydrwydd, eu proffesiynoldeb, a'u hymrwymiad i'w gwaith; ac i'm cyd-aelodau am eu cefnogaeth a'u cyngor parod.

**Meri Huws**  
Cadeirydd

where Welsh medium provision remains very inadequate overall. The reason why we need to address this area is to ensure that the excellent work in the primary and secondary sectors is not undone, when it is simply not possible for the vast majority of school pupils to follow the normal course of their education through the medium of Welsh as they go to college, or as they receive vocational training.

In conclusion, I should like as always, to thank our partners for their cooperation and hard work; Meirion Prys Jones and his team especially, for their diligence, professionalism and commitment to their work; and my fellow-members for their willing advice and support.

**Meri Huws**  
Chair



## Y Bwrdd

### The Board

#### Statudol

Sefydlwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gorff statudol ar 21 Rhagfyr 1993, gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Daw'r rhan fwyaf o gyllid y Bwrdd drwy grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae ei waith yn cael ei asesu'n flynyddol gan Lywodraeth y Cynulliad yn unol â thargedau mesuradwy. Ceir asesiad o berfformiad y Bwrdd yn erbyn targedau 2007-08 yn Atodiad 1.

Swyddogaethau craidd y Bwrdd yw:

- Hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg
- Cynghori a dylanwadu ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg
- Ysgogi a goruchwyllo'r broses o baratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith
- Rhoi grantiau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith
- Cadw gorolwg strategol dros addysg Gymraeg.

#### Aelodaeth

Penodir aelodau'r Bwrdd gan Weinidog dros Dreftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar ddechrau'r cyfnod adrodd, roedd gan y Bwrdd 11 aelod.

#### Statutory

The Welsh Language Board was established as a statutory body on 21 December 1993 by the Welsh Language Act 1993. Most of the Board's funding comes from a grant from the Welsh Assembly Government, and the Board's work is assessed annually by the Assembly Government against quantifiable targets. An assessment of the Board's performance measured against the targets set for 2007-08 may be found in Annex 1.

The Board's five core functions are:

- Promoting and facilitating the use of the Welsh language
- Advising on and influencing issues relating to the Welsh language
- Initiating and overseeing the process of preparing and operating Welsh Language Schemes
- Distributing grants for promoting and facilitating the use of the language
- Maintaining a strategic overview of Welsh language education.

#### Membership

Board members are appointed by the Welsh Assembly Government Minister for Heritage. At the beginning of the reporting period, the Board had 11 members.



Ar agor  
Open

# Y Bwrdd

## The Board

Fe'u penodwyd am y cyfnod 1 Ebrill 2007 tan 31 Mawrth 2010. Yr aelodau yn ystod y cyfnod adrodd oedd:

**Meri Huws** (Cadeirydd)  
Dirprwy Is-Ganghellor,  
Prifysgol Bangor

**Nick Bennett**  
Prif Weithredwr,  
Cartrefi Cymunedol Cymru

**Owen Evans**  
Cyfarwyddwr dros Gymru,  
Busnes yn y Gymuned

**Gwyneth Morus Jones**  
Cyn Lywydd Cenedlaethol Merched  
y Wawr a chyn Gadeirydd Mudiad  
Ysgolion Meithrin

**Huw Jones**  
Ymgynghorydd Annibynnol a chyn  
Brif Weithredwr, S4C

**Dr Arun Midha**  
Cyfarwyddwr Busnes a Chynllunio,  
Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol  
Ôl-raddedig, Coleg Meddygol  
Prifysgol Caerdydd

**Marc Phillips**  
Cyfarwyddwr Cenedlaethol,  
Plant mewn Angen, BBC Cymru

They were appointed for the period 1 April 2007 to 31 March 2010. Here is a full list of the members during the reporting period:

**Meri Huws** (Chair)  
Pro Vice Chancellor,  
University of Bangor

**Nick Bennett**  
Chief Executive,  
Community Housing Cymru

**Owen Evans**  
Director for Wales,  
Business in the Community

**Gwyneth Morus Jones**  
Former National President of  
Merched y Wawr and former Chair  
of Mudiad Ysgolion Meithrin

**Huw Jones**  
Independent consultant and former  
Chief Executive, S4C

**Dr Arun Midha**  
Director of Business and Planning,  
School of Postgraduate Medical  
and Dental Education, University of  
Cardiff College of Medicine

**Marc Phillips**  
National Organiser,  
Children in Need, BBC Wales

**Catherine Rees**  
Dirprwy Brif Weithredwr,  
Menter a Busnes

**Rhiannon Walters**  
Athrawes Fro,  
Cyngor Sir Powys

**Yr Athro Colin Williams**  
Athro Ymchwil mewn  
Socioieithyddiaeth, Ysgol y  
Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

**Elin Wyn**  
Rheolwr cwmni hyfforddi sy'n  
darparu hyfforddiant newyddiadurol  
a chyfryngol yn Gymraeg a Saesneg

Mae disgwyl i'r Cadeirydd neilltuo dau ddiwrnod yr wythnos i faterion y Bwrdd, gyda'r aelodau'n neilltuo dau ddiwrnod y mis.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu canllawiau priodol ar arferion gweithredu da, yn unol â Chod Arferion Gorau'r Llywodraeth i Aelodau Byrddau. Rydym hefyd yn cadw cofrestr o ddiddordebau allanol yr aelodau. Mae copi'au o'r rhain ar gael drwy wneud cais i swyddfeydd y Bwrdd.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd sefydlu Pwyllgor Archwilio, a sicrhau fod trefniadau cymwys yn eu lle ar

**Catherine Rees**  
Deputy Chief Executive,  
Menter a Busnes

**Rhiannon Walters**  
Athrawes Fro [Community Teacher],  
Powys County Council

**Professor Colin Williams**  
Research Professor in  
Sociolinguistics, School of Welsh,  
Cardiff University

**Elin Wyn**  
Manager of a training company  
which provides journalistic and  
media training in Welsh and English

The Chair is expected to devote two days a week to Board matters, with the members devoting two days a month.

The Board has adopted appropriate guidelines on good working practices, in accordance with the Government's Code of Best Practices for Members of Boards. We also keep a register of members' external interests. Copies of these are available on request from the Board's offices.

The Board is required to establish an Audit Committee, and to ensure that appropriate audit arrangements are

## Y Bwrdd

### The Board

gyfer archwilio. Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd pedwar aelod i'r Pwyllgor Archwilio, sef Huw Jones (Cadeirydd), Arun Midha, Owen Evans a Catherine Rees. Cynhaliwyd dau gyfarfod yn ystod y cyfnod.

#### Cyfarfodydd

Rhwng Ebrill 2007 a Mawrth 2008 cynhaliodd y Bwrdd bedwar cyfarfod agored yn:

- Llanarthne, ger Caerfyrddin, 22 Mehefin 2007
- Y Bala, 21 Medi 2007
- Hensol, ger Llantrisant, 23 Tachwedd 2007
- Aberhonddu, 14 Mawrth 2008

Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod caeedig yng Nghaerdydd ar 22 Tachwedd 2007 i drafod ceisiadau grant. Cyhoeddir manylion pob cyfarfod agored ymlaen llaw.

in place. During the reporting period, there were four members of the Audit Committee, namely Huw Jones (Chair), Arun Midha, Owen Evans, and Catherine Rees. Two meetings were held during the period.

#### Meetings

Between April 2007 and March 2008 the Board held four open meetings at:

- Llanarthne, near Carmarthen, 22 June 2007
- Y Bala, 21 September 2007
- Hensol, near Llantrisant, 23 November 2007
- Brecon, 14 March 2008

Also, a closed meeting was held in Cardiff on 22 November 2007 to discuss applications for grant. Details of all open meetings are announced in advance.

**Os ydych am wybod rhagor am y Bwrdd, neu am unrhyw agwedd o'n gwaith, cysylltwch â ni:**

#### Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT

Ffôn:  
029 2087 8000

Ffacs:  
029 2087 8001

e-bost:  
post@byig-wlb.org.uk

Gwefan:  
www.byig-wlb.org.uk

**If you would like to know more about the Board, or about any aspect of our work, you are welcome to contact us:**

#### Welsh Language Board

Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff  
CF10 1AT

Telephone:  
029 2087 8000

Fax:  
029 2087 8001

e-mail:  
post@byig-wlb.org.uk

Internet:  
www.byig-wlb.org.uk





## Neges y Prif Weithredwr Message from the Chief Executive

Y llynedd oedd y cyfnod mwyaf diddorol a heriol yn hanes Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ar ei chychwyn, aeth yr ansicrwydd ynghylch ein dyfodol heibio am y tro. Gwnaeth hynny bethau'n haws ar y cyfan i'n staff a'n partneriaid oll, gan brofi unwaith eto eu gallu i ymateb yn gadarnhaol i newid. Mae'r crynodeb gweithredol ar ddechrau'r ddogfen hon yn dangos yn syth gwmpas ein gwaith dros nifer o wahanol feysydd sy'n allweddol i ddyfodol yr iaith Gymraeg. Yng nghorff yr adroddiad wedyn, cewch fwy o'r manylion ymhob achos, a gweld beth yw hyd a lled ein swyddogaeth graidd, sef hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg.

Nid dyma unig swyddogaeth y Bwrdd, wrth gwrs. Rydym hefyd yn gyfrifol am lywio'r broses statudol fanwl sy'n ymwneud â llunio a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg gan wahanol gyrff. Bellach mae dros 450 o'r Cynlluniau hyn yn weithredol, ac ar ddiwedd y cyfnod adrodd, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei bod yn enwi 57 corff pellach y byddai'n rhaid iddyn nhw baratoi Cynlluniau statudol am y tro cyntaf. Mae'r Bwrdd yn

Last year was the most interesting and challenging period in the history of the Welsh Language Board. At the beginning of the year, the uncertainty surrounding our future was alleviated, for the time being at least. That made life easier on the whole for our staff and all our partners, who proved once again that they were up to the task of responding positively to change.

The executive summary at the beginning of the document illustrates immediately the breadth of our work over several areas which are crucial to the future of the Welsh language. Then, in the main body of the report, you can obtain more details in each case, and experience something of what our key function of promoting and facilitating the use of the Welsh language actually involves.

This is not the Board's only function, of course. We are also responsible for driving the detailed statutory process relating to the preparation and operation of Welsh Language Schemes by various bodies. There are now over 450 of these Schemes operational, and, at the end of the reporting period, the Welsh Assembly Government announced that it was going to name 57 further bodies that would have to prepare statutory Language Schemes for the very first time. The Board is proud of its success

**Meirion Prys Jones**

# Neges y Prif Weithredwr

## Message from the Chief Executive

falch o'i lwyddiant yn y maes hwn, sydd wedi arwain at godi statws y Gymraeg yn sylweddol, a chynyddu ei defnyddio, er bod mwy i'w wneud o hyd ar draws pob sector i sicrhau bod defnydd llawn yn cael ei wneud o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Un peth arbennig y mae'r Bwrdd yn meddu arno yw ei brofiad helaeth a'i wybodaeth drylwyr o gynllunio ieithyddol ar gyfer iaith leiafrifol fel y Gymraeg. Mae'r wybodaeth a'r profiad hynny wedi ennyn parch at ein gwaith ar draws y byd, ac yn arbennig yn Ewrop, lle'r ydym newydd lansio'n ffurfiol y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol. Y Bwrdd sydd yn cadeirio'r Rhwydwaith ac yn darparu'r Ysgrifenyddiaeth iddo. Mae dros ugain aelod i'r Rhwydwaith yn barod, a'r disgwyl yw y bydd mwy'n ymuno wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

O ran addysg, bu'r Bwrdd yn galw'n gyson am well trefn o fewn Llywodraeth y Cynulliad i ddelio'n benodol ag addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. Bellach, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yn paratoi strategaeth ar gyfer y maes. Croesawn y datblygiad hwn, ac rydym yn barod wrthi'n gwneud

in this area, which has led to the status of the Welsh language being raised appreciably, and to an increase in the use of Welsh, even though more still needs to be done across all sectors to ensure that full advantage is taken of the opportunities that are available.

One field in which the Board possesses special expertise derives from its wide experience and detailed knowledge of language planning for a minority language such as Welsh. That knowledge and experience have earned worldwide respect for our work, especially in Europe, where we have just formally launched the Network for Promoting Linguistic Diversity. It is the Board which chairs the Network and provides its Secretariat. The Network already has over twenty members, and we expect more to join up as the work develops.

In education, the Board has consistently called for a better structure within the Assembly Government to deal specifically with Welsh medium education and training. The Government has now announced that it will be preparing a strategy for this field. We welcome this development, and are already working

ymchwil paratoadol, cyn i'r gwaith gychwyn ar y strategaeth ei hun.

Cyhoeddiad arall gan y Llywodraeth yr ydym yn ei groesawu yw'r penderfyniad fod angen i'r Llywodraeth a'r Bwrdd fynd ati i sefydlu canolfan genedlaethol ar gyfer safoni terminoleg ac ati. Rydym yn gweithio ar hyn o bryd ar y manylion ar y cyd â'r Llywodraeth a phartneriaid eraill ag arbenigedd yn y maes, ond yn ddi-os byddai canolfan o'r fath yn gymorth pellach i godi statws y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni, yn ogystal â rhoi hwb i'r proffesiwn cyfieithu yng Nghymru.

Eto, mae staff y Bwrdd, ein hadnodd pwysicaf o bell ffordd, wedi profi eu bod yn meddu ar yr ymroddiad a'r arbenigedd angenrheidiol i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Diolch o galon iddyn nhw i gyd am eu holl waith, a'u rhan allweddol yn ein holl lwyddiannau ar draws y cyfnod.

**Meirion Prys Jones**  
Prif Weithredwr

on preparatory research before work begins on the strategy itself.

Another Government announcement that we welcome is its decision to work with the Board to establish a national centre for standardizing terminology and the like. We are presently working on the details, in conjunction with the Assembly Government and other partners who have expertise in this area. Without doubt, a centre of this kind would assist in raising further the status of the Welsh language and in increasing its use, as well as being beneficial to the translation industry in Wales.

Once again, the Board's staff – our major strength without a doubt – have shown that they have the necessary commitment and expertise to promote and facilitate the use of the Welsh language. My heartfelt thanks to them all for their hard work, and for the key part that they have played in all our successes over the period.

**Meirion Prys Jones**  
Chief Executive





## Crynodeb Gweithredol Executive Summary

Corff statudol yw Bwrdd yr Iaith Gymraeg a sefydlwyd ar 21 Rhagfyr 1993. Ei brif swyddogaeth yw hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg. Noddir y Bwrdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd yn asesu ei waith yn flynyddol yn unol â thargedau penodol. Meri Huws yw Cadeirydd y Bwrdd ac mae 10 aelod arall iddo. Meirion Prys Jones yw'r Prif Weithredwr, ac mae ef yn arwain tîm o dros 75 o staff sydd wedi'u lleoli ledled Cymru, ond yn bennaf yn ein tair prif swyddfa: yng Nghaerdydd, Caernarfon a Chaerfyrddin. Dyma rai o'r uchafbwyntiau a restrir yn adrannau'r Adolygiad Blynyddol hwn.

### Twf

- Sicrhawyd cytundeb i frandio a chynhyrchu ffolderi i'w defnyddio gan bob darpar fam yng Nghymru i gadw nodiadau beichiogrwydd.
- Datblygwyd perthynas weithredol gyda Mudiad Ysgolion Meithrin er mwyn darparu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau meithrin.
- Parhaodd y gwaith craidd o gysylltu â rhieni newydd a darpar rieni er mwyn cynnig cyngor a chefnogaeth ar drosglwyddo'r Gymraeg.

The Welsh Language Board is a statutory body established on 21 December 1993. Its main function is to promote and facilitate the use of the Welsh language. The Board is sponsored by the Welsh Assembly Government, which assesses its work annually in accordance with specific targets. Meri Huws is the Chair of the Board; it has 10 other members. Meirion Prys Jones is the Chief Executive, and he leads a team of over 75 staff located across Wales, but principally in our three main offices in Cardiff, Caernarfon and Carmarthen. Here are some of the highlights from the sections of this Annual Review.

### Twf

- An agreement was secured to brand and produce folders to be used by every prospective mother in Wales to keep pregnancy notes.
- We developed our working relationship with Mudiad Ysgolion Meithrin to produce training for nursery group leaders.
- We continued our core work of contacting new parents and prospective parents to offer advice and support on transmitting the Welsh language to their children.

# Crynodeb Gweithredol

## Executive Summary

### Addysg

- Derbyniodd tri awdurdod addysg lleol gymeradwyaeth i'w hail Gynllun Addysg Gymraeg; bellach mae 11 awdurdod addysg wedi derbyn cymeradwyaeth i'w hail Gynllun.
- Dyrannwyd dros £2.7 miliwn mewn grantiau i hyrwyddo addysg Gymraeg, ac ariannwyd 6 Chanolfan Cymraeg i Oedolion sy'n ailgyflwyno darpariaeth anffurfiol strwythuredig i ddysgwyr yng Nghymru.
- Parhawyd â'r ymgyrch Cymraeg – Kids Soak It Up i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg.
- Cwblhawyd cyfnod cyntaf y Prosiect i Wella Dilyniant mewn Addysg.
- Cynhaliwyd arolwg annibynnol o'r cyngor a roddir gan Gwmni Gyrfa Cymru i bobl ifanc am fanteision sgiliau dwyieithog, ac o'r gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Pobl Ifanc

- Rhoddwyd grantiau i'r Urdd, i Wobr Dug Caeredin, ac i nifer o Glybiau Ffermwyr Ifanc yn sirol i gynyddu cyfleoedd cymdeithasol

### Education

- Three local education authorities received approval for their second Welsh Education Schemes; currently 11 authorities have received approval for their second schemes.
- Over £2.7 million in grants was allocated to promote Welsh language education, and we funded 6 Welsh for Adults Centres which re-established an informal, structured provision for learners in Wales.
- We continued the Cymraeg – Kids Soak It Up campaign to promote Welsh medium education.
- The first part of the Project to Improve Continuity in Education was completed.
- An independent review was made of the advice given by Careers Wales to young people on the advantages of bilingual skills, and of the services that are provided through the medium of Welsh.

### Young People

- Grants were awarded to the Urdd, to the Duke of Edinburgh Award, and to several county Young Farmers' Clubs to increase social

pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg.

- Fel rhan o weithredu ein Strategaeth Ieuenctid, cyhoeddwyd Canllawiau Hunan Arfarnu Cynnal Gwasanaethau Cymraeg ar gyfer Awdurdodau Lleol.
- Parhawyd i gefnogi gwaith swyddog i ddatblygu hyfforddiant chwaraeon cyfrwng Cymraeg.
- Sefydlwyd prosiect Cefnogi Arferion Iaith er mwyn ceisio perswadio pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Cynhaliwyd taith ysgolion yn nhymor yr hydref 2007, mewn cydweithrediad â BBC Radio Cymru ac S4C.

### Cymunedau

- Cynhaliwyd 21 Menter Iaith mewn 19 sir ledled Cymru.
- Parhawyd i gynnal a datblygu 10 Cynllun Gweithredu Iaith i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig.
- Datblygwyd prosiect peilot i sefydlu gweithdy 'Croeso i Gymru' ar gyfer mewn fudwyr.

opportunities for young people to use the Welsh language.

- As part of the work of implementing our Youth Strategy, we published Self-assessment Guidelines on Supporting Welsh Language Services for Local Authorities.
- We continued to support the work of an officer to develop sports training through the medium of Welsh.
- We established the 'Cefnogi Arferion Iaith' project [Supporting Language Use] to persuade young people to use Welsh outside the classroom.
- A schools tour was organised in Autumn 2007, in conjunction with BBC Radio Cymru and S4C.

### Communities

- We supported 21 Mentrau Iaith in 19 counties throughout Wales.
- We continued to maintain and develop 10 Language Action Plans to increase the social use of the Welsh language in areas of special linguistic significance.
- We developed a pilot project to establish a 'Welcome to Wales' workshop for immigrants.



# Crynodeb Gweithredol

## Executive Summary

### Y Sector Preifat

- Datblygwyd proses i'w defnyddio gan fusnesau i fesur eu defnydd o'r Gymraeg.
- Buom yn cydweithio â nifer o gwmnïau unigol a chyrrff ymbarél i gynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y sector.
- Parhawyd i gynnig cyngor a chefnogaeth ymarferol i gwmnïau sydd am gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.
- Parhawyd â'n gwaith o wobrwyo busnesau sy'n gwneud defnydd da o'r Gymraeg.

### Y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol

- Cymeradwywyd 63 Cynllun Iaith Gymraeg newydd; diweddarwyd 45 Cynllun; ac ymatebwyd i 188 adroddiad monitro gweithrediad Cynlluniau Iaith.
- Datblygwyd deunyddiau i'w defnyddio gan ymarferwyr, gan gynnwys pecyn ymwybyddiaeth iaith.
- Parhawyd â'r gwaith o annog defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy gydweithio â sefydliadau penodol.

### The Private Sector

- We developed a process for businesses to measure their use of the Welsh language.
- We collaborated with several individual companies and umbrella organisations on increasing the use of Welsh in the sector.
- We continued to offer practical advice and support to companies who wish to increase their use of Welsh.
- We continued our work to reward businesses who make good use of the Welsh language.

### The Public and Voluntary Sectors

- 63 new Welsh Language Schemes were agreed; 45 Language Schemes were revised; and we responded to 188 monitoring reports on the implementation of Language Schemes.
- We developed materials for practitioners' use, including a language awareness pack.
- We continued with our project to promote the use of Welsh in the workplace, by working in partnership with specific organisations.

- Lansiwyd Strategaeth i gynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y Sector Gwirfoddol.
- Treialwyd methodoleg ar gyfer asesu effaith datblygiadau cynllunio ar y Gymraeg.
- Parhawyd â'r ymgyrch Mae Gen Ti Ddewis i annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

### Partneriaid

- Dyrannwyd dros £4.4 miliwn mewn grantiau i bartneriaid y Bwrdd yn 2007-08.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda'n prif bartneriaid, ar lefel genedlaethol a thrwy gyfrwng Fforymau Sirol.
- Parhawyd i gefnogi Urdd Gobaith Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru, Merched y Wawr, a'r Mudiad Ysgolion Meithrin.
- Mae'r Bwrdd a'i bartneriaid wedi datblygu polisiau i dargedu gweithgareddau yng Nghaerdydd, sef ardal Eisteddfod Genedlaethol 2008.

- We launched a Strategy for increasing the use of Welsh in the Voluntary Sector.
- We tested a new methodology to assess the effect of planning developments on the Welsh language.
- We continued our campaign 'Mae Gen Ti Ddewis' [You do have a choice] to encourage Welsh speakers to use those Welsh language services that are available.

### Partners

- Over £4.4 million in grants was awarded to the Board's partners in 2007-08.
- Regular meetings were held with our major partners, at national level and through the medium of County Forums.
- We continued to support the Urdd, the National Eisteddfod, the Association of Welsh Translators and Interpreters, the Wales Young Farmers Movement, Merched y Wawr, and Mudiad Ysgolion Meithrin.
- The Board and its partners have developed projects to target events in Cardiff, where the National Eisteddfod will be held in 2008.



# Crynodeb Gweithredol

## Executive Summary

### Ar Hyd ac ar Led

- Lansiwyd rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer Microsoft Office® 2007, a Windows Vista®, yn ogystal â set gynhwysfawr o raglenni gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i systemau Apple Mac OS X, ac mae'r rhain i gyd ar gael yn rhad ac am ddim o wefan y Bwrdd.
- Cyhoeddwyd Canllawiau Safoni Termau a gomisiynwyd ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad.
- Parhaodd y Llinell Gyswilt i ddarparu cyfieithiadau byrion yn rhad ac am ddim, gan ymateb i 14,000 o ymholiadau.
- Cyhoeddwyd yr adroddiad ymchwil 'Trosglwyddo Iaith Mewn Teuluoedd Dwyieithog yng Nghymru'.
- Cynhaliwyd cynhadledd ddeuddydd i drafod yr ymchwil a gynhaliwyd gan y Bwrdd ers 2004.
- Cyhoeddwyd adroddiad 'Y Defnydd o'r Gymraeg yn y Sector Preifat'.
- Cyhoeddwyd canlyniadau arolygon i ddatblygu dangosyddion defnydd iaith.

### Far and Wide

- We launched Welsh language interfaces for Microsoft Office® 2007, and Windows Vista®, as well as a comprehensive suite of grammar and spell checkers for Apple Mac OS X systems, and these are all available free of charge from the Board's website.
- We published Guidelines for the Standardization of Terminology, in conjunction with the Welsh Assembly Government.
- The LinkLine continued to provide a free service for short translations: it responded to 14,000 enquiries.
- We published the research report 'Language Transmission in Bilingual Families in Wales'.
- We held a two day conference to discuss research supported by the Board since 2004.
- We published the report 'The Use of the Welsh Language in the Private Sector'.
- We published the results of surveys to develop language use indicators.

- Derbyniodd y Bwrdd grant o 447,535 Ewro er mwyn sefydlu Rhwydwaith Ewropeaidd i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol.

- The Board received a grant of 447,535 Euros to establish the European Network for Promoting Linguistic Diversity.





## Twf Twf



Perswadio rhieni i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf yw pwrpas prosiect mwyaf y Bwrdd, sef Twf. Gwneir hynny mewn sawl dull a modd, gan ddefnyddio rhwydwaith o staff ledled Cymru sy'n gweithio'n benodol arno. Gwaith craidd y swyddogion hyn yw cysylltu â rhieni newydd a darpar rieni er mwyn cynnig cyngor a chefnogaeth ar drosglwyddo'r iaith, ac ar gynnal cartrefi Cymraeg a dwyieithog. Mae'r tîm hwn yn cynnal sesiynau gyda grwpiau bach, neu'n unigol gyda rhieni, gan hefyd weithio mewn partneriaeth â bydwagedd ac ymwelwyr iechyd lleol. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn llu o ddigwyddiadau cymunedol er mwyn hyrwyddo'r cynllun.

Rhan allweddol o waith y prosiect yw cydweithio â gwahanol bartneriaid i'w galluogi i drosglwyddo neges Twf i rieni a darpar rieni. Yn ystod y cyfnod adrodd, sicrhawyd cytundeb cyffrous i frandio a chynhyrchu ffolderi a gaiff eu defnyddio gan bob darpar fam yng Nghymru i gadw nodiadau beichiogrwydd. Mae'r ffolderi yn cyfleu manteision trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant,

Persuading parents to transmit the Welsh language to the next generation is the purpose of the Board's largest project, Twf. This is done in a variety of ways, using a network of staff throughout Wales who work specifically on the project. The core work of these officers is to contact new parents and prospective parents in order to offer them advice and support on transmitting the Welsh language, and on maintaining Welsh language and bilingual homes. This team conducts sessions with small groups, or individually with parents, often in partnership with local midwives and health visitors. They also take part in a variety of community events to promote the project.

One of the project's key elements is working together with different partners so that they too may convey Twf's message to parents and prospective parents. During the reporting period, an exciting agreement was secured to brand and produce folders which will be used by every prospective mother in Wales to keep notes on their pregnancy. The folders explain the advantages of transmitting the Welsh language to



Twf  
Twf





Dwy iaith i agor drysau  
Double your choice with  
Welsh and English

a byddant yn cael eu defnyddio o fis Tachwedd 2008 ymlaen.

Hefyd, ehangwyd ar y marchnata uniongyrchol a thorfol drwy hysbysebu ar drafnidiaeth gyhoeddus, a chyrrhaeddwyd 10,000 o famau newydd drwy gyfrwng e-hysbyseb. Yn ogystal, datblygodd y bartneriaeth rhwng Twf a Mudiad Ysgolion Meithrin. Cynhaliodd Twf sesiynau rhannu gwybodaeth am waith Twf i arweinyddion cylchoedd Ti a Fi, a chylchoedd Meithrin, er mwyn datblygu sgiliau perswadio wrth drafod dwyieithrwydd gyda rhieni newydd. Mae hwn yn adlewyrchu'r cydweithio cynyddol sy'n digwydd ar lawr gwlad, gyda'r naill bartner a'r llall yn manteisio ar y cyfleoedd i gefnogi ei gilydd er budd y Gymraeg.

their children; they will be in use from November 2008 onwards.

We also expanded our direct and mass marketing on public transport; and 10,000 mothers were reached by means of an e-advertisement. In addition, the partnership between Twf and Mudiad Ysgolion Meithrin was further developed. Twf organised sessions for the leaders of Ti a Fi and nursery groups to share information on the work of the project, in order to develop persuasion skills in discussing bilingualism with new parents. This reflects the increasing cooperation which is taking place at grass roots level, with both partners taking advantage of the opportunities available to support each other for the benefit of the Welsh language.







## Addysg Education

Dwy ffordd sydd i ddod yn siaradwr Cymraeg: dysgu'r iaith gartref drwy gyfrwng y teulu, neu ei dysgu drwy gyfrwng addysg – yn yr ysgol, neu fel oedolyn. Yr ail gyfrwng sydd yn bennaf cyfrifol am y cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymysg plant oed ysgol dros y degawdau diweddar. Cred y Bwrdd yn bendant mai'r blynyddoedd cynnar yw'r cyfnod rhwyddaf i ddysgu iaith ynddo.

Parhaodd gwaith statudol y Bwrdd i ddwyn ffrwyth. Gwelwyd 3 awdurdod addysg lleol yn llunio ail Gynlluniau Addysg Gymraeg gan ddilyn canllawiau diwygiedig y Bwrdd. Bellach mae 11 awdurdod wedi derbyn cymeradwyaeth i'w hail Gynllun. Mae'r Cynlluniau hyn yn gosod cyfrifoldeb ar y sefydliadau i nodi targedau penodol ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae cynllunio strategol a darparu lleoedd digonol ar gyfer disgyblion sy'n dymuno addysg Gymraeg yn elfen greiddiol o'r Cynlluniau Addysg Gymraeg. Felly, mae sicrhau tystiolaeth ddibynadwy ar gyfer y cynllunio hwn wedi dod yn agwedd gynyddol bwysig.

Hefyd, parhawyd â'r ymgyrch Cymraeg – Kids Soak It Up,

There are two ways of becoming a Welsh speaker: learning the language at home in the family, or learning it through education – in school, or as an adult. The second of these is mainly responsible for the significant increase in the number of Welsh speakers among children of school age over the past few decades. The Board believes that the early years is the best period for learning the language with ease.

The Board's statutory work continued to bear fruit. Three local education authorities prepared a second Welsh Education Scheme in line with the Board's revised guidelines. To date, eleven authorities have had their second Schemes approved. These Schemes place a responsibility on the authorities to provide specific targets for developing Welsh medium provision. Strategic planning, together with the provision of sufficient places for those pupils who desire Welsh medium education, is a key element of these Welsh Education Schemes. As a result, ensuring that reliable evidence is available to support this planning work has become an increasingly important aspect.

Work also continued on the campaign Cymraeg – Kids Soak It Up,



## Addysg Education

Cymraeg –  
kids soak it up

sy'n hyrwyddo manteision addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Hon oedd trydedd flwyddyn yr ymgyrch, sy'n ceisio argyhoeddi rhieni fod addysg Gymraeg yn cynnig y cyfleoedd gorau posib i'w plant. Cynhaliwyd yr ymgyrch mewn 13 sir, lle trefnwyd amrywiaeth o ddigwyddiadau ar gyfer rhieni a darpar rieni. Bu cefnogaeth yr Awdurdodau Lleol, y Mentrau Iaith, a swyddogion Mudiad Ysgolion Meithrin a Twf yn greiddiol i lwyddiant yr ymgyrch.

Yn ogystal, cwblhawyd cyfnod cyntaf y Prosiect i Wella Dilyniant mewn Addysg Gymraeg rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Amcan y prosiect yw gweithio gyda phenaethiaid, llywodraethwyr, athrawon, rhieni a disgyblion er mwyn cryfhau dilyniant ieithyddol wrth drosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd. Comisiynwyd cwmni i weithredu'r gwaith maes ar ran y Bwrdd, a bu'r cwmni yn ymweld â dwy ysgol uwchradd yng Ngheredigion, a dwy ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin, ynghyd â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo.

Comisiynodd y Bwrdd arolwg annibynnol o'r cyngor a roddir

which promotes the advantages of Welsh medium education in the early years. This was the third year of the campaign. It seeks to persuade parents that Welsh medium education provides the best possible opportunities for their children. The campaign took place in 13 counties, where a range of events were organised for parents and prospective parents. A key element in the campaign's success was the support of Local Authorities, Mentrau Iaith, and the officers of Mudiad Ysgolion Meithrin and Twf.

In addition, the first phase of the Project to Improve Continuity in Welsh Language Education between Key Stages 2 and 3 was completed. The project aims to work with heads, governors, teachers, parents and pupils to strengthen linguistic continuity between the primary and secondary sectors. A company was commissioned to carry out field work on behalf of the Board; it visited two secondary schools in Ceredigion, and two secondary schools in Carmarthenshire, in addition to the primary schools which feed these four schools.

The Board commissioned an independent review of the advice





## Addysg Education

gan Gyrfu Cymru i bobl ifanc am fanteision sgiliau dwyieithog ac o'r gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i'r arolwg, bydd y chwe Chwmni Gyrfu yn diwygio'u Cynlluniau Iaith Gymraeg dros y misoedd nesaf. Hefyd, mae argymhellion yr adroddiad yn cynnig arweiniad ar gryfhau agweddau Cymraeg a dwyieithog y gwasanaeth.

Parhawyd â'r gwaith o ailgyflwyno darpariaeth anffurfiol strwythuredig i ddysgwyr yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, drwy ariannu 6 Chanolfan Cymraeg i Oedolion. Mae'r canolfannau wedi arbrofi â dulliau gwahanol o gynig cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Unwaith eto, yn 2007-08, dyrannwyd grantiau i hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae manylion pellach am y grantiau hyn yn Atodiad 2. Eu prif bwrpas yw datblygu gwasanaethau athrawon bro'r awdurdodau addysg lleol, a chyfrannu at ariannu Canolfannau i Hwyrddyfodiaid.

given to young people by Careers Wales on the advantages of bilingual skills and of the services offered through the medium of Welsh. As a result of the review, the six Careers Companies will revise their Welsh Language Schemes over the next few months. Also, the report's recommendations offer advice on strengthening Welsh language and bilingual aspects of the service.

We continued our work on re-establishing an informal, structured provision for learners in Wales during the reporting period, by funding 6 Welsh for Adults Centres. These Centres have been testing different methods of offering informal opportunities to allow learners to practise their Welsh language skills outside the classroom.

Once again, in 2007-08, grants were allocated to promote Welsh language education. Further details of these grants can be found in Annex 2. Their main purpose is to develop the 'athrawon bro' [community teachers] service of local education authorities, and to contribute towards the funding of Centres for Latecomers.



Cefnogi Gwaith Cartref  
Welsh Homework Support





## Pobl Ifanc Young People

Mae hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gan bobl ifanc ym mhob agwedd ar eu bywydau yn flaenoriaeth bwysig iawn i'r Bwrdd, ac rydym wedi datblygu partneriaethau cryf gyda sefydliadau eraill sydd yn gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc, megis yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, a Chyngor Chwaraeon Cymru.

Yn 2007-08, buom yn parhau i weithredu ein Strategaeth leuenctid, sydd wedi ei llunio er mwyn ceisio cynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc 11-25 oed o'r Gymraeg. Cyhoeddwyd Canllawiau Hunan Arfarnu Cynnal Gwasanaethau Cymraeg, sy'n sefydlu system newydd i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid adrodd ar gynnydd gwasanaethau llafar i bobl ifanc drwy gyfrwng eu Cynlluniau Iaith Gymraeg.

Yn y maes chwaraeon, parhaodd y Bwrdd i gefnogi gwaith Swyddog Datblygu'r Gymraeg sydd bellach yn gweithio yng Nghyngor Chwaraeon Cymru. Prif bwrpas y swydd, a ariennir ar y cyd â'r Cyngor, yw cynnig cefnogaeth i amrywiaeth o gyrff er mwyn cynyddu defnyddio'r Gymraeg mewn chwaraeon. Yn

Promoting the use of the Welsh language by young people in every aspect of their lives is a very important priority for the Board, and we have developed strong partnerships with other organisations who are working to promote the language to young people, such as the Urdd, Welsh Young Farmers' Clubs, and the Sports Council for Wales.

In 2007-08, we continued the work of implementing our Youth Strategy, which seeks to increase the social use of Welsh by young people aged 11-25. Specifically, we published Self-assessment Guidelines on Supporting Welsh Language Services which establish a new system for Local Authorities and their partners to report, through their Welsh Language Schemes, on progress on oral services for young people.

In the area of sport, we continued to support a Welsh Language Development Officer, who now works at the Sports Council for Wales. The main purpose of this post, which is jointly funded with the Sports Council, is to offer support to a variety of bodies in order to increase the use of Welsh in sports.



## Pobl Ifanc Young People

ystod y cyfnod adrodd, cydweithiodd y swyddog â chyrrff llywodraethol pêl-droed, rygbi, nofio a thennis bwrdd i lunio Cynlluniau Datblygu Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. Ceir bellach wybodaeth gyfredol am hyfforddwyr sy'n medru darparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg mewn saith camp.

Sefydlodd y Bwrdd brosiect peilot, Cefnogi Arferion Iaith, er mwyn wynebu'r her o atal y tueddiad cynyddol ymysg pobl ifanc i beidio â defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gwahodwyd saith ysgol i fod yn rhan o'r prosiect, a daeth disgyblion ac athrawon ynghyd i drafod yr her ac i benderfynu ar brosiect fyddai'n dylanwadu ar ddefnydd iaith disgyblion yr ysgol. Penderfynwyd canolbwyntio ar botensial disgyblion hŷn i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddisgyblion iau, a chynhaliwyd hyfforddiant i'r perwyl hwn.

Mae prosiectau cerddoriaeth y Bwrdd yn dal i ffynnu. Trefnodd Cerdd Gymunedol Cymru nifer o gigs i gefnogi mudiadau a grwpiau cymunedol. Hefyd, llwyddwyd i gyrraedd pobl ifanc ar lawr gwlad drwy gynnal gweithdai a chefnogi

During the reporting period, this officer worked with the governing bodies for football, rugby, swimming and table tennis to produce Welsh medium Training Development Plans. Up-to-date information is now available on coaches who are able to provide Welsh medium training in seven sports.

The Board established a pilot project, 'Cefnogi Arferion Iaith' [Supporting Language Use], which faces the challenge of reversing the increasing tendency by young people not to use Welsh outside the classroom. Seven schools were invited to participate in the project, and pupils and teachers came together to discuss the challenge and to decide on a project which would influence pupils' language usage. It was decided to concentrate on the potential that older pupils have to bring their influence to bear on younger pupils in a positive way, and training was provided on this particular aspect.

The Board's music projects continue to prosper. Community Music Wales organised several gigs to support community organisations and groups. Also, young people were successfully targeted at grass roots level through arranging workshops and by supporting

artistiaid newydd. Parhaodd y berthynas ariannu rhwng y Bwrdd, S4C a BBC Radio Cymru. Drwy hyn, trefnwyd eto daith ysgolion i roi blas ar gerddoriaeth gyfoes Gymraeg i 7,000 o bobl ifanc, yn ogystal â chodi eu hymwybyddiaeth o raglenni cerddoriaeth Radio Cymru ac S4C.

new artists. The funding partnership between the Board, S4C, and BBC Radio Cymru continued. Through this, a music tour for schools was again organised to give 7,000 young people a taste of contemporary Welsh language music, as well as raising their awareness of music programmes on Radio Cymru and S4C.

**IAITHIOL  
CERIBANOL**



## Cymunedau Communities

Mae'r Bwrdd yn credu'n gryf fod iechyd yr iaith ar lefel gymunedol yn greiddiol i'w dyfodol. Rydym yn cefnogi ein cymunedau Cymraeg yn bennaf drwy ariannu gwaith y Mentrau Iaith drwy grant; drwy gynnal yn uniongyrchol Gynlluniau Gweithredu Iaith mewn 10 ardal; a thrwy gefnogi amryfal brosiectau cymunedol eraill.

### Mentrau Iaith

Mae 21 Menter Iaith bellach yn weithredol ymron i bob rhan o Gymru, ac mae'r Bwrdd yn cyfrannu'n helaeth at eu hariannu. Yn 2007-08, sefydlwyd Menter Iaith newydd i wasanaethu siroedd Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy. Mae'r cyswllt rheolaidd drwy ein staff rhanbarthol a chenedlaethol wedi sicrhau perthynas agos gyda'r Mentrau Iaith yn ystod y cyfnod. Mae cyswllt cyson wedi ei feithrin hefyd wrth i'r Mentrau gynorthwyo'r Bwrdd ag ymgyrchoedd penodol megis Cymraeg – Kids Soak It Up. Bu'r Mentrau hefyd yn brysur yn cynnal cystadlaethau lleol a rhanbarthol ar gyfer Brwydr y Bandiau. Dyma bartneriaeth rhwng yr holl Fentrau Iaith ac C2 Radio Cymru ar gyfer grwpiau ifanc.

The Board believes strongly that the health of the language on a community level is vital to its future. We support our Welsh language communities mainly by funding the work of Mentrau Iaith through grants; by directly maintaining Language Action Plans in 10 different areas; and through supporting various community based projects.

### Mentrau Iaith

There are now 21 Mentrau Iaith operating in almost every part of Wales, and the Board makes a substantial contribution towards their funding. In 2007-08, a new Menter Iaith was established to serve the counties of Blaenau Gwent, Torfaen and Monmouthshire. Regular interaction with our regional and national staff has ensured that we have kept a close relationship with the Mentrau Iaith during the period. A regular link has also been fostered as the Mentrau continue to assist the Board on specific campaigns such as Cymraeg – Kids Soak It Up. The Mentrau Iaith have also been active in holding local and regional competitions for Brwydr y Bandiau [The Battle of the Bands]. This is a partnership between all the Mentrau Iaith and C2 Radio Cymru for young pop groups.





# Cymunedau Communities

## Cynlluniau Gweithredu Iaith (CGI)

Nod y Cynlluniau Gweithredu Iaith (CGI) yw cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig, drwy sefydlu a chydlynu partneriaeth ddeinamig o wirfoddolwyr lleol a sefydliadau sy'n gweithio yn yr ardal. Erbyn hyn mae 10 CGI ar waith. Fe'u lleolir yn Abergwaun, Aberteifi, Rhydaman, Corwen, Rhuthun, Llanrwst, Bangor, Amlwch, Machynlleth, a Gwauncaegurwen. Yn y rhan fwyaf o'r CGI, cyflogir Swyddog Datblygu gan y Bwrdd i weithio'n lleol i hwyluso datblygiad Pwyllgor Llywio o wirfoddolwyr. Mewn rhai, ceir Pwyllgor Partneriaid lleol yn ogystal. Mae'r CGI yn cynrychioli datblygiad arloesol mewn cynllunio ieithyddol cymunedol yng Nghymru.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cychwynnwyd ar y broses o gynnal adolygiad cynnydd yn ardal Rhuthun. Bwriad adolygiad o'r fath yw asesu cynnydd gwaith y CGI dros gyfnod o amser, a chreu strategaeth weithredol ar gyfer datblygiad y Gymraeg o fewn y gymuned. Bydd pob CGI yn cynnal adolygiad o'r fath yn ei dro.

## Language Action Plans (LAPs)

The aim of the Language Action Plans (LAPs) is to increase the community use of the Welsh language in areas of special linguistic significance by establishing and co-ordinating a dynamic partnership of local volunteers and organisations working in the area. Currently 10 LAPs are operational. They are based in Fishguard, Cardigan, Ammanford, Corwen, Ruthin, Llanrwst, Bangor, Amlwch, Machynlleth, and Gwauncaegurwen. In the majority of these, the Board employs a Development Officer to work locally to facilitate the development of a voluntary local Steering Committee. In some areas, there is a Partnership Committee as well. The LAPs represent an innovative development in community language planning in Wales.

During the reporting period, the process of conducting a progress review was initiated in Ruthin. The purpose of these reviews is to assess progress on the work of the LAP over a period of time, and to create an operational strategy for developing the Welsh language in the community. Each LAP will conduct a similar review in turn.

## Mewnfudo ac Allfudo

Mae ein hymchwil yn dangos fod allfudo o'n cymunedau Cymraeg, a mewnfudo iddyn nhw, yn cynnig un o'r heriau mwyaf i barhad a thwf y Gymraeg yn y dyfodol. Mae'n anorfod, felly, wrth drafod cynllunio ieithyddol cymunedol fod sylw'n cael ei roi i ddatblygu prosiectau sydd am weld mewnfudwyr yn integreiddio i'w hardaloedd newydd, a dod i wybod yn fuan am eu natur ieithyddol.

Mae'r Bwrdd ers rhai blynyddoedd wedi bod yn arbrofi â dulliau gwahanol o gynig cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid, ynghyd â chynnig cyfleoedd i bobl leol gymryd rhan ganolog yn y broses o'u hintegreiddio. Yn 2007-08, datblygwyd prosiect peilot yn rhan o gynllun Gwlad, dan ofal Prifysgol Bangor, i sefydlu gweithdy 'Croeso i Gymru' ar gyfer mewnfudwyr. Rhoddwyd pwyslais ar annog unigolion o'r gymuned i gefnogi mewnfudwyr. Hefyd, parhaodd y Bwrdd i ddsbarthu deunyddiau pwrpasol ar gyfer darpar fewnfudwyr drwy weithio'n agos gydag asiantaethau lleol. Drwy'r cynllun grantiau i awdurdodau addysg

## Immigration and Emigration

Our research work shows that immigration into Welsh speaking communities, and emigration from them, present one of the greatest challenges to the language's future sustainability and growth. It is inevitable, therefore, in the context of community language planning, that attention be given to the development of projects which encourage newcomers to become integrated into their new areas and to be made quickly aware of their linguistic make-up.


For some years, the Board has been testing different methods of providing opportunities for newcomers, as well as providing opportunities for local people to assume a central role in the integration process. In 2007-08, a pilot project was developed as part of the Gwlad project, run by the University of Bangor, to establish a 'Welcome to Wales' workshop for immigrants. Individuals of the community were encouraged to support immigrants. Also, the Board continued to distribute materials aimed at immigrants, by working closely with local agencies. Through the grants scheme to local authorities to promote Welsh



## Cymunedau Communities

lleol i hyrwyddo addysg Gymraeg, parhaodd y Bwrdd i gefnogi 19 o Ganolfannau i Hwyrddyfodiaid yn y sector cynradd, ac un Ganolfan i Hwyrddyfodiaid Uwchradd. Yn ddiweddarach eleni, bydd y Bwrdd yn trefnu seminar fydd yn mynd i'r afael ag allfudo o gymunedau Cymraeg, yn ogystal â mewnfudo iddynt.

language education, the Board continued to support 19 Centres for Latecomers in the primary sector, and one Centre for Secondary Latecomers. Later this year, the Board will be organising a seminar to address emigration from Welsh speaking communities, as well as immigration to them.





## Y Sector Preifat The Private Sector

Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn y Sector Preifat wedi datblygu'n fawr dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r Bwrdd wedi cefnogi hyn drwy gynyddu'n sylweddol ei waith gyda busnesau.

Mae ymchwil a gynhaliwyd ar ran y Bwrdd yn dangos bod agweddau cefnogol iawn i ddwyieithrwydd ar draws y sector. Mae'r Bwrdd felly yn cynnig cymorth ac arweiniad i fusnesau sydd am gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Ers rhai blynyddoedd mae'r Bwrdd wedi cynnig grantiau i gefnogi busnesau sydd am gynhyrchu deunydd dwyieithog, ac mae'r Bwrdd hefyd yn cynnig gwasanaethau cyfieithu a phrawfddarlenn sylfaenol am ddim drwy'r Llinell Gyswllt. Rydym yn annog cwmnïau i ddefnyddio cynllun Iaith Gwaith y Bwrdd sy'n galluogi staff i ddangos eu bod yn medru siarad Cymraeg, ac yn annog cwsmeriaid i ddefnyddio gwasanaeth Cymraeg pan fydd un ar gael.

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu'r Bwrdd yn datblygu proses hunanasesu i'w defnyddio gan fusnesau i fesur eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r broses hon yn cynnig gorolwg strwythuredig o ddwyieithrwydd unrhyw fusnes,

The use of Welsh in the Private Sector has developed greatly over the past few years and the Board has supported this through significantly increasing its work with businesses.

Research carried out by the Board shows that there is support for increased bilingualism across the sector. The Board, therefore, offers assistance and advice to businesses who want to increase their use of Welsh. For some years, the Board has offered grants to businesses who wish to produce bilingual material, and we have also offered a basic free translation and proofreading service through the LinkLine to Welsh. We encourage business to use the Board's Iaith Gwaith [Working Welsh] scheme which allows staff to identify themselves as Welsh speakers, and encourages customers to use a Welsh language service when it is available.

During the reporting period, the Board developed a self-assessment process for businesses, enabling them to measure their use of the Welsh language. This process offers a strategic overview of bilingualism in any business, and, as a result,





## Y Sector Preifat The Private Sector

ac o ganlyniad mae'n sail i lunio polisi iaith syml ac i gynllunio cynnydd dros amser. Rydym wedi cynnal cyfnod prawf o'r broses asesiad eleni, gan dderbyn ymateb ffafriol gan fusnesau o bob maint drwy Gymru gyfan.

Mae'r Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau drwy Gymru er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft trwy eu hannog i ddefnyddio arwyddion dwyieithog. Mae nifer o archfarchnadoedd hefyd wedi cyflwyno pecynnu dwyieithog am y tro cyntaf eleni, gan bwysleisio elfennau lleol ac ansawdd da eu cynnyrch. Yn ogystal, bu enghreifftiau arloesol o ddarparu gwasanaethau bancio ar-lein a thiliau hunanwasanaeth yn y Gymraeg.

provides a basis for producing a simple language policy and for planning future growth. We have held a trial of the assessment process this year, which received positive feedback from businesses of all sizes across Wales.

The Board has been working in partnership with businesses to increase their use of the Welsh language, for example, by encouraging them to erect bilingual signs. Several supermarkets have also introduced bilingual packaging for the first time this year, emphasising the local provenance and premium quality of food and drink products. In addition, there are recent examples of on-line banking services and self-service tills produced for the first time in the Welsh language.

logwrt a phwddinau  
yogurt & desserts



## Y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol The Public and Voluntary Sectors

Mae'r adran hon yn ymwneud â gwaith y Bwrdd yn y ddau sector, ac yn arbennig â'i brif swyddogaeth statudol benodol, sef cadw gorolwg dros baratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg.

### Cynlluniau Iaith Gymraeg

Bellach, mae dros 450 o Gynlluniau iaith yn weithredol. Yn ystod y cyfnod adrodd, cymeradwyodd y Bwrdd 63 o Gynlluniau iaith. Mae rhestr gyflawn ohonynt yn Atodiad 3, ynghyd â'r 45 Cynllun a ddiweddarwyd. Ymatebwyd yn ogystal i 188 adroddiad monitro ar Gynlluniau sydd eisoes yn weithredol, ac ymatebwyd i 62 cwyn o dan adran 18, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

### Deunyddiau ac Arweiniad

Yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth, mae'r Bwrdd yn ceisio cyfeirio gwaith sefydliadau cyhoeddus drwy gynnig arweiniad. Datblygwyd deunyddiau i'w defnyddio gan ymarferwyr, gan gynnwys pecyn ymwybyddiaeth iaith a baratowyd ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad.

Cynhaliwyd seminarau i amryfal sectorau yn ystod y cyfnod adrodd: ar brif-ffrydio'r Gymraeg ac ar

This section deals with the Board's work in the two sectors, and in particular with its main specific statutory function, which is to oversee the preparation and implementation of Welsh Language Schemes.

### Welsh Language Schemes

There are now over 450 Schemes in operation. During the reporting period, the Board approved 63 Schemes. There is a full list of these in Annex 3, together with the 45 Schemes that were updated. In addition, we responded to 188 monitoring reports on Schemes which are already operational, and to 62 complaints under section 18 of the Welsh Language Act 1993.

### Materials and Guidance

In addition to ensuring compliance, the Board seeks to direct the work of public bodies by providing them with guidance. Materials were developed for the use of practitioners, including a language awareness pack prepared jointly with the Welsh Assembly Government.

Seminars were held for various sectors during the reporting period: on mainstreaming the Welsh





## Y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol The Public and Voluntary Sectors

ddyfarnu grantiau, benthyciadau a nawdd i'r sector llywodraeth leol; ar farchnata i'r sector llywodraeth ganol; ac ar gynnig dewis iaith i'r sector gweinyddu cyfiawnder. Yn ogystal, cynhaliwyd seminar i'r sector gofal cychwynnol er mwyn ceisio barn arbenigwyr, a chychwyn ar y gwaith o greu cynllun gweithredu pwrpasol ar gyfer hyrwyddo'r iaith o fewn y sector.

### Tai a Chynllunio

Mae'r gwaith o geisio sicrhau statws priodol i'r Gymraeg yn y maes tai a chynllunio yn parhau. Bu'r Bwrdd yn cydweithio â nifer o awdurdodau lleol, ac yn arbennig Cyngor Ynys Môn, Cyngor Sir Gâr, Cyngor Gwynedd, a Pharc Cenedlaethol Eryri ar ymarferiadau i dreialu methodoleg ar gyfer asesu effaith datblygiadau ar y Gymraeg. Yn ogystal, bydd y Bwrdd yn rhan o weithgor fydd yn adolygu Nodyn Cyngor Technegol 20 cyn iddo gael ei ddiwygio yn ystod 2009.

language and on allocating grants, loans and sponsorship, for the local government sector; on marketing, for the central government sector; and on offering language choice, for the administration of justice sector. In addition, a seminar was held for the primary care sector, to seek the views of experts, and to initiate work on creating a specific operational plan for promoting the language within the sector.

### Housing and Planning

Work continues on ensuring that the Welsh language has the appropriate status in the housing and planning field. The Board has been working on partnerships with several local authorities, in particular the Isle of Anglesey County Council, Carmarthenshire County Council, Gwynedd County Council, and the Snowdonia National Park Authority, on exercises to test a methodology for assessing the effect of developments in the Welsh language. In addition, the Board will be a member of a working party that will review Technical Advice Note 20 before it is amended in 2009.

# mae gen ti ddewis...

# O bydded i'r heniaith barhau?

### Marchnata Gwasanaethau Cyfrwng Cymraeg

Ym mis Chwefror 2007, lansiwyd ymgyrch farchnata newydd, Mae Gen Ti Ddewis, er mwyn annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'n llawn y gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a gynigir gan gyrff cyhoeddus ac eraill. Ymestynnwyd y cynllun yn ystod 2007-08, gan gydweithio â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Gwasanaeth Gwaed Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, a Chanolfan y Mileniwm.

### Marketing Welsh Medium Services

In February 2007, a new marketing campaign was launched, 'Mae Gen Ti Ddewis' [You do have a choice]. Its purpose is to encourage Welsh speakers to make full use of Welsh language services offered by public bodies and others. The campaign was extended during 2007-08, as we worked in partnership with the Countryside Council for Wales, the Welsh Blood Service, the Welsh Assembly Government, and the Wales Millennium Centre.



# Y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol

## The Public and Voluntary Sectors

---

Yn ogystal, cynhaliwyd ymgyrch farchnata gyffredinol i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy ddefnyddio cyfres o hysbysebion.

### Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog

Mabwysiadwyd polisi rhagweithiol gan y Bwrdd gyda'r nod o gynyddu defnyddio'r Gymraeg mewn gweithleoedd. Fel rhan o'r gwaith hwn bu'r Bwrdd yn cydweithio â Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi Cymru, a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, er mwyn cynyddu'r defnydd mewnol a wneir o'r Gymraeg yn y sefydliadau hynny.

### Ymchwiliadau

Cynhaliwyd ymchwiliad i achos lle codwyd arwyddion ffyrdd Saesneg yn unig gan Ddinas a Sir Abertawe yn Ynysforgan. Yn dilyn yr ymchwiliad, mae'r Cyngor bellach wedi derbyn argymhelliad y Bwrdd i osod arwyddion dwyieithog yn eu lle. Mae adroddiad llawnach ar yr ymchwiliad hwn yn Atodiad 4.

In addition, a general marketing campaign was held to promote Welsh language services, using a series of advertisements.

### Promoting Bilingual Workplaces

A proactive policy has been adopted by the Board, with the aim of increasing the use of the Welsh language in workplaces. As part of this, the Board has been working together with Her Majesty's Courts Service in Wales, and with the Countryside Council for Wales, in order to increase the internal use of Welsh in these organisations.

### Investigations

An investigation was carried out into a case in which English only signs had been erected by the City and County of Swansea in Ynysforgan. Following the investigation, the Council has since accepted the Board's recommendation to erect bilingual signs in their place. A fuller report on the investigation is in Annex 4.

### Y Sector Gwirfoddol

Lansiwyd Strategaeth gan y Bwrdd ar gyfer y Sector Gwirfoddol. Mae cyhoeddi'r Strategaeth yn dilyn ymgyngori â phartneriaid o'r sector, ac mae'n esbonio sut y gall y Bwrdd gefnogi a chyfrannu at hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg yn y Sector Gwirfoddol. Pan lansiwyd y Strategaeth, lansiwyd hefyd Gynllun Iaith newydd Shelter Cymru fel enghraifft o sefydliad gwirfoddol sydd wedi derbyn ein cymeradwyaeth yn ystod y cyfnod adrodd.

### The Voluntary Sector

The Board launched a Strategy for the Voluntary Sector. This followed consultation with our partners in the sector. The document explains how the Board can support, and contribute to, the work of promoting and facilitating the use of Welsh in the Voluntary Sector. When we launched the Strategy, Shelter Cymru also launched their new Welsh Language Scheme, as an example of a voluntary organisation which had secured our approval for their new Scheme during the reporting period.





Clwb Gwawr Dinefwr

## Partneriaid Partners

Mae'r Bwrdd bob amser wedi rhoi pwyslais amlwg ar weithio mewn partneriaeth drwy gydweithio'n agos â'r sefydliadau unigol sy'n derbyn grant, a thrwy bartneriaethau ehangach eraill. Agwedd bwysig ar hyn fu'r gwaith o ddatblygu'r berthynas gydweithio gyda'n prif bartneriaid, gan gynnwys Mudiad Ysgolion Meithrin, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Mentrau Iaith, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Merched y Wawr, a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Cymru. Er mwyn hwyluso'r cydweithio hwn, rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'n partneriaid yn sirol, ac yn genedlaethol.

Er mwyn cryfhau'r elfen o weithio mewn partneriaeth ar lefel sirol, mae'r gwaith o sefydlu Fforymau Sirol wedi parhau. Mae'r Fforymau hyn, sy'n cynnwys staff cyflogedig o blith prif bartneriaid y Bwrdd, yn gyfle i drafod cynllunio ieithyddol yn yr ardaloedd, ac i rannu arfer da. O ganlyniad, mae'r gwaith o gynllunio'n strategol i hyrwyddo'r Gymraeg wedi'i gryfhau, ac mae aelodau unigol yn cynrychioli'r Fforymau ar bwyllgorau sirol eraill.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r berthynas gyda'n prif bartneriaid

The Board has always emphasised working in partnership – by working closely with individual organisations that receive grants, and through other, wider partnerships. An important aspect of all this was developing a close working relationship with our major partners, including Mudiad Ysgolion Meithrin, the Urdd, the National Eisteddfod, the Mentrau Iaith, the Association of Welsh Translators and Interpreters, Merched y Wawr, and Welsh Young Farmers' Clubs. In order to facilitate this collaboration, we hold regular meetings with these partners at national and county level.

To strengthen the element of working in partnership on a county level, the establishment of County Forums has continued. These Forums, on which staff from among the Board's main partners sit, provide an opportunity to discuss language planning in their respective areas, and to share good practice. As a result, strategic planning to promote the Welsh language has been strengthened; also, individual members represent the Forums on other county-based committees.

During the reporting period, our relationship with our main



## Partneriaid

### Partners

wedi'i chryfhau hyd yn oed ymhellach, wedi iddynt ddatblygu polisiâu ar y cyd i dargedu Caerdydd, sef ardal Eisteddfod Genedlaethol 2008. Mae'r cydweithio yn dilyn llwyddiant y llynedd pan dargedwyd ardal yr Wyddgrug yn y cyfnod cyn Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint.

Ers y cychwyn bron, mae'r Bwrdd wedi bod â chyfrifoldeb dros ddyrannu grantiau mewn amryfal feysydd. Mae'r grantiau hyn wedi ariannu gwaith sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol y Bwrdd, gan gynnwys ariannu craidd i rai mudiadau sy'n bodoli i hyrwyddo'r iaith, grantiau i'r papurau bro, a chyfres o brosiectau arloesol. Mae'r Bwrdd hefyd wedi buddsoddi mewn arolygon a gwerthusiadau annibynnol er mwyn adolygu effeithiolrwydd y grantiau i'n prif bartneriaid, ac er mwyn cefnogi datblygiad gweithgareddau yn eu meysydd hwy. Mae rhestr lawn o'r grantiau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg wedi ei chynnwys yn Atodiad 2.

Yn 2007-08, gwelwyd mudiad Merched y Wawr yn parhau i fynd o nerth i nerth gyda chynnydd yn nifer ei aelodau, ac yn benodol o

partners was further strengthened following their agreement to develop collectively projects aimed at Cardiff, where the National Eisteddfod will be held in 2008. This cooperative effort emulates last year's successful targeting of the Mold area in the period leading up to the Flintshire National Eisteddfod.

Early in its history, the Board accepted responsibility for allocating grants in several fields. These grants fund work which supports the Board's strategic aims, and includes core funding for certain organisations which exist to promote the Welsh language, grants for papurau bro [community newspapers], and for a series of innovative projects. The Board has also invested in independent assessments and evaluations to review the effectiveness of the grants to our main partners, and to support the development of activities in their respective fields. A full list of these grants for promoting the use of Welsh is contained in Annex 2.

In 2007-08, we again witnessed Merched y Wawr going from strength to strength, with an increase in its membership, specifically among

blith merched iau. Erbyn hyn mae gan Merched y Wawr dros 250 o ganghennau dros Gymru, a 33 o Glybiau Gwawr.

young women. Currently, Merched y Wawr has over 250 branches across Wales, with 33 Clybiau Gwawr having been established.



## Ar Hyd ac ar Led Far and Wide

### Technoleg Gwybodaeth

Cred y Bwrdd yn gryf fod yn rhaid i'r Gymraeg fod â lle haeddiannol ym myd technoleg gwybodaeth, a bod angen mynd i'r afael â'r maes mewn modd hirdymor. Nod ein dogfen strategaeth yn y maes yw normaleiddio sefyllfa'r iaith Gymraeg ym myd technoleg gwybodaeth. Mae llawer iawn o adnoddau cyfrifiadurol Cymraeg, yn rhyngwynebau ac yn offer gwirio sillafu a gramadeg, eisoes ar gael. Nod y Bwrdd yw sicrhau defnydd eang o'r rhain a datblygu'r maes hollbwysig hwn ymhellach.

Ychwanegwyd at yr adnoddau cyfrifiadurol Cymraeg sydd ar gael yn rhad ac am ddim yn ystod y cyfnod adrodd. Gweithiodd y Bwrdd mewn partneriaeth â Microsoft i sicrhau bod rhyngwynebau Cymraeg ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer Microsoft Office® 2007 a Windows Vista®. Yn ogystal, lansiodd set gynhwysfawr o raglenni gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i systemau Apple Mac OS X yn rhad ac am ddim, fel y bydd pob cynnyrch cyfrifiadurol y byddwn yn ei ariannu neu yn ei gomisiynu o hyn allan.

### Information Technology

The Board believes strongly that the Welsh language must have a rightful place in the field of information technology, and that we must adopt a long-term approach to the issue. The aim of our strategy document is to normalise the position of Welsh in IT. Many ICT resources, both interfaces and grammar and spell checkers, are already available. The Board's aim is to ensure that these are widely used, and that this all-important field is further developed.

During the reporting period, further Welsh language ICT resources, which are available free of charge, were launched. The Board worked in partnership with Microsoft to ensure that Welsh language interfaces for Microsoft Office® 2007 and Windows Vista® were produced. In addition, a comprehensive suite of Welsh language grammar and spell checkers for Apple Mac OS X systems were launched. These are also available free of charge, as will be all ICT products that we fund or commission in future.





# Ar Hyd ac ar Led

## Far and Wide

### Terminoleg a Chyfieithu

Yn y maes terminoleg, cyhoeddwyd Canllawiau Safoni Termau a gomisiynwyd ar y cyd â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y rhain yn gosod sylfaen bwysig ar gyfer prosiectau safoni termau'r Bwrdd, ac yn gymorth i eraill sy'n dymuno ymgymryd â phrosiectau safoni termau.

Cychwynnwyd ar y broses o safoni enwau lleoedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru, gan gydweithio â Chyngor Sir Gâr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Gwynedd yn bennaf.

Parhaodd y Llinell Gyswllt â'r Gymraeg i ddarparu cyfieithiadau byrion yn rhad ac am ddim, gan ymateb i 14,000 o ymholiadau yn ystod y cyfnod adrodd. Hefyd sefydlwyd contract newydd gyda Chwmni Mamiaith i redeg y Llinell Gyswllt a'r Llinell Cefnogi Gwaith Cartref tan 2011.

### Data ac Ymchwil

Mae sylfaen tystiolaeth gref yn hollbwysig ar gyfer cynllunio ein gweithgarwch fel Bwrdd. Mae ffrwyth cyfran helaeth o'n gwaith i'w weld yn barod ar ein

### Terminology and Translation

In the field of terminology, we launched our Guidelines for the Standardization of Terminology, which were commissioned in conjunction with the Welsh Assembly Government's Translation Service. This will provide an important basis for the Board's standardization projects, and will be of assistance to others who wish to engage on such projects.

We began the process of standardizing the place-names of Local Authorities in Wales, mainly working in partnership with Carmarthenshire County Council, Rhondda Cynon Taf County Borough Council and Gwynedd Council.

The LinkLine to Welsh continued to provide short translations free of charge; it responded to some 14,000 enquiries during the reporting period. A new contract was established with Mamiaith to run the LinkLine and the Homework Support Line until 2011.

### Data and Research

A strong evidence base is an important prerequisite for the Board to be able to plan its activities properly. The results of a large part of our work can already be seen on our

gwefan, lle rydym wedi cronni stôr o fapiau, a dadansoddiadau diddorol a threiddgar am yr iaith. Un adroddiad pwysig iawn a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd oedd 'Trosglwyddo Iaith Mewn Teuluoedd Dwyieithog yng Nghymru', a gomisiynodd y Bwrdd gan Ysgol Seicoleg ac Ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg, Prifysgol Bangor.

Bu 2007-08 hefyd yn gyfle i'r Bwrdd ledaenu'r ymchwil a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf, a rhannu casgliadau gan ymarferwyr o'r maes cynllunio ieithyddol yng Nghymru a thu hwnt. I'r perwyl hwn, trefnwyd cynhadledd ddeuddydd ym mis Medi 2007 lle cafwyd cyfle i drafod yr ymchwil a gynhaliwyd ers 2004, a sut y gellir trosglwyddo'r gwersi i weithredoedd ar lawr gwlad.

Lluniwyd y cyhoeddiadau canlynol yn ogystal:

- 'Y Defnydd o'r Gymraeg yn y Sector Preifat' – Adroddiad gan gwmni Mabis yn dilyn cynnal grwpiau ffocws o berchnogion a staff busnesau bach a chanolig mewn lleoliadau ar draws Cymru.
- Canlyniadau arolygon a gynhaliwyd yn Amlwch,

website, where we have accumulated a stock of maps, and interesting and penetrating analyses on the language. One very important report which was published during the reporting period was on Language Transmission in Bilingual Families in Wales, commissioned by the Board from the School of Psychology and School of Linguistics and English Language, Bangor University.

2007-08 also provided the Board with an opportunity to promote research carried out over the past years, and to share conclusions with language planning practitioners in Wales and beyond. To this effect, a two day conference was held in September 2007 which provided an opportunity to discuss research undertaken since 2004, and how to disseminate the lessons learnt to those involved in activities at grass roots level.

The following publications were also issued during the period:

- 'The Use of Welsh in the Private Sector', a report by Mabis, following the holding of focus groups of proprietors and staff of small and medium enterprises in locations throughout Wales.
- The results of surveys carried out in Amlwch, Bangor, Ruthin,



## Ar Hyd ac ar Led Far and Wide

Bangor, Rhuthun, Machynlleth, Aberteifi a Rhydaman mewn adroddiad ar ymchwil i ddatblygu dangosyddion defnydd iaith.

- Adroddiad 'Asesu Effaith Cynllun Iaith Gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg'.
- Papur yng nghylchgrawn ar-lein newydd Prifysgol Cymru, 'Gwerddon', a roddodd ddadansoddiad manwl o oblygiadau canlyniadau Cyfrifiad 2001 i'r iaith.

### Rhyngwladol

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu'r Bwrdd yn llwyddiannus yn denu grant o 447,535 Ewro er mwyn sefydlu Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol. Mae'r Rhwydwaith newydd hwn wedi'i seilio ar strwythurau sydd eisoes mewn lle i hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol, lleiafrifol, brodorol neu lai eu defnydd. Mae'r Bwrdd yn ganolog yn natblygiad y Rhwydwaith, gyda dau aelod o staff yn ei weinyddu o'r swyddfa yng Nghaerdydd. Bydd y Rhwydwaith yn adeiladu ar y gwaith da sydd wedi ei wneud gan y strwythurau sydd eisoes mewn lle, ynghyd ag ymateb i'r cyd-destun ieithyddol newydd yn yr Undeb Ewropeaidd. Bydd hefyd

Machynlleth, Cardigan, and Ammanford, in a report on research to develop language use indicators.

- The report 'Impact Assessment of the Iaith Gwaith – Working Welsh Scheme'.
- A paper in the University of Wales's new on-line magazine 'Gwerddon', providing a detailed analysis of the implications for the language of the results of the 2001 Census.

### The International Scene

During the reporting period, the Board was successful in attracting a grant of 447,535 Euros to establish the Network for Promoting Linguistic Diversity. The new Network is based on existing structures which promote regional, minority, indigenous, and lesser-used languages. The Board has played a central role in the network's development, with two members of staff providing administrative support from our Cardiff office. The Network will build on the good work of existing structures, as well as responding to the new linguistic context in the European Union. It will also

yn trefnu cynadleddau a seminarau i rannu arferion da mewn cynllunio ieithyddol.

Mae'r Rhwydwaith yn darparu cyfle pwysig i'r Bwrdd arddangos ei waith ar lefel Ewropeaidd. Mae aelodau'r Rhwydwaith yn cynnwys llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol, prifysgolion a chanolfannau ymchwil, mudiadau sydd tu allan i'r llywodraeth, ynghyd â chyrrff cynllunio ieithyddol ar draws Ewrop. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o blith rai o aelodau mwyaf newydd yr Undeb Ewropeaidd, megis Estonia, Slofenia a Hwngari.

Yn ogystal â hyn, bu'r Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod cyfieithwyr ar y pryd o Gymru yn derbyn hyfforddiant a fydd yn eu galluogi i gyfieithu o fewn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd.

arrange conferences and seminars to share good practice in language planning.

The Network also provides the Board with an all-important opportunity to showcase its work on a European level. The members of the Network consist of national and regional governments, universities and research centres, organisations working outside government, as well as language planning bodies across Europe. It includes representatives of some of the newest members of the EU, such as Estonia, Slovenia, and Hungary.

